sir ddinbych Cyngor
denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Y Cynghorydd Brian Jones,<br>Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd |
| **Dyddiad yr adroddiad** | 7 Rhagfyr, 2020 |
| **Swyddog Arweiniol** | Emlyn Jones,<br>Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad |
| **Awdur yr Adroddiad** | Peter Daniels, Rheolwr Cludiant Teithwyr |
| **Teitl** | Dyfarnu Gwasanaeth Bws Lleol D66C.25 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Dyfarnu contract gwasanaeth bws newydd ar gyfer gwasanaethau 66 (gwasanaeth Tref Dinbych/Dinbych - Henllan); a gwasanaeth 76 (Rhuthun – Dinbych trwy Landyrnog).

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1. Mae angen cymeradwyaeth ffurfiol gan yr Aelod Arweiniol priodol, o dan Reolau Caffael Contract a Rheolau Sefydlog y Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelod Arweiniol yn cadarnhau dyfarnu Contract D66C.25 i M & H Coaches Ltd.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Mae swyddogion angen dyfarnu contract bws lleol newydd sy'n cynnig darpariaeth yr un fath a'r un sy'n dod i ben. Defnyddiodd swyddogion y system brynu deinamig cludiant teithwyr cyfredol i gael dyfynbrisiau. Dim ond y rhai sydd wedi pasio'r trothwy ansawdd priodol all dendro, ar ôl hynny bydd y dyfarniad ar bris yn unig. Cafodd y Cyngor ddau dendr. Mae'r dyfarniad i'r cynigiwr isaf (M & H Coaches Ltd, hefyd y darparwr cyfredol).

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae hyn yn cefnogi blaenoriaeth 'Cysylltu Cymunedau' y Cyngor, ac, yn anuniongyrchol, blaenoriaeth 'Pobl Ifanc' (mynediad at addysg).

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cost gros y contract dros ei dymor cyflawn o bum mlynedd yw £1,060,680.

6.2. Mae hyn yn cynnwys symudiadau ysgol prysur i ddysgwyr sy'n gymwys i gael cludiant am ddim i ac o Ysgol Brynhyfryd, Ysgol y Santes Ffraid ac Ysgol Uwchradd Dinbych.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad lles penodol, gan nad yw'r amserlenni yn gwella'r gwasanaeth nac yn andwyol i deithwyr/dysgwyr. Mae'r contract yn cynnig lefel o wasanaeth sy'n gyfwerth ag amserlen heddiw.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Yn gyffredinol nid yw hyn yn berthnasol (gan nad oes unrhyw newidiadau yn arbennig toriadau i'r gwasanaethau hyn). Fodd bynnag, bu i swyddogion ymgynghori â Grŵp Ardal Aelodau Dinbych ynghylch elfen y gwasanaeth tref/Henllan, a fydd, o ganlyniad, yn parhau i gael ei gynnig fel gwasanaeth bws hyblyg.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Cefnogir yr argymhelliad i ddyfarnu contract gwasanaeth bws ar gyfer gwasanaethau 66 a 76. Bydd y dyfarniad yn sicrhau parhad y gwasanaeth am gost net ychydig yn is i'r Cyngor.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

| Risg | Lliniaru |
|---|---|
| Nad yw'r tendr llwyddiannus yn gallu derbyn y contract | Yn annhebygol, gan fod y cynigiwr llwydd yn adnabyddus i swyddogion Cyngor Sir Ddinbych. |

| | |
|---|---|
| | Y gweithredwr arfaethedig ac mae digon o gerbydau yn gysylltiedig â'u trwydded. Serch hynny, byddai'r gwaith fel bo angen yn mynd i'r cynnig isaf nesaf, yn amodol ar ailwerthusiad ariannol. |
| Risg i'r cyngor o ansolfedd y contractwr yn ystod cyfnod y contract. | Mae'r risg ariannol i Gyngor Sir Ddinbych yn isel, oherwydd ôl-daliad. Cynhaliwyd gwiriad D & B |
| Natur cost gros y contract yn golygu bod y refeniw yn mynd i'r Cyngor. Risg nad yw'r refeniw yn cyd-fynd â disgwyliadau | Sylwer bod y contract cymhorthdal net cyferbyniol yn cyflwyno risgiau uwch. Mae'r gweithredwr yn uchel ei barch gan swyddogion. Disgwylir taliadau caledi bws gan Drafnidiaeth Cymru yn ystod yr argyfwng feirws pan fo nifer y teithwyr yn gostwng am hyd at 2 flynedd a hanner. Wedi hynny a bob amser, mae angen monitro'r refeniw. |

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Rheol Caffael Contract 2.7.2.

11.2. Mae Atodiad 2(b) i Adran 13 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu'r pwerau a ddirprwyir i'r Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd o ran penderfyniadau yn ei bortffolio.